



# Dyfodol Ni

OUR FUTURE

Dogfen yn manylu ar flwyddyn gyntaf Partneriaeth Dyfodol Ni o fewn Rhaglen Meddwl Ymlaen Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, a chynlluniau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.



# Cynnwys


1 Y Prosiect a'n Cenhadaeth

3 Y Bartneriaeth

4 Y Cyfnod Datblygu

6 Canlyniadau

8 Cynllun Cyflwyno: Safle Saff i Siarad ($S^3$)

9 Cynllun Cyflwyno: Llyw a Byw




# Y Rhaglen a'n Cenhadaeth

Mae Dyfodol Ni yn Bartneriaeth o sefydliadau sy'n ffocysu ar ieuenctid a gweithwyr proffesiynol ymddiriadwy ar draws Ceredigion. Wedi'i ariannu gan Raglen Meddwl Ymlaen Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, mae Dyfodol Ni wedi dod at ei gilydd i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig, wedi'u cyd-gynhyrchu, gan roi pobl ifanc ar y blaen i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl ac ymyriadau i bobl ifanc yn y sir. Bydd y rhaglen yn rhedeg tan fis Mawrth 2028.

Yr ethos sydd wrth galon Partneriaeth Ceredigion fydd gwrando ar bobl ifanc. Byddwn yn darparu cyfleoedd iddyn nhw fynegi eu hunain, i lunio cyfeiriad y rhaglen, a chyd-gynhyrchu gweithgareddau yn y dyfodol i wella gwydnwch ac iechyd meddwl pobl ifanc ar draws Ceredigion gyfan. Felly, drwy ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ifanc, bydd rhaglen Dyfodol Ni yn gweithio gyda phobl ifanc i fynd i'r afael â'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu yn uniongyrchol.

Daeth y cyfnod datblygu i ben ym mis Awst 2023, a bydd y rhaglen bellach yn gweithio i gyflawni'r cynllun i wella iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc Ceredigion, dan arweiniad y bobl ifanc eu hunain ar bob cam.



YPMC
mae ein lleisiau'n bwysig
Dwi am DDEFNYDDIO FY LLAIS
ac i RYWUN i WRANDO
DWI am GREU EFFAITH
mae pobl ifanc yn ANGERDDOL
gwneud NEWID
RHWYD ddiogelwch ar gyfer pobl ifanc
PAM 'yn NI YMA
mwy o WELEDEDD
cwiar
angen ni ASESU GWASANAETHAU SYDD EISOES YN BODOLI
a chreu rhai'n hunain
mwy ar gyfer pobl ifanc hŷn
angen iddynt fod yn fwy GWELEDOL
GWEITHGAREDDAU
cysylltwch
PLATFFORM i RANNU SGILIAU
a dysgu sgiliau newydd
TARGEDU POBL IFANC
digwyddiadau CYMDEITHASOL sydd DDIM yn ymwneud ag ALCOHOL
MAN DIOGEL
BETH 'YN NI EISIAU
dim rhaid HALA ARIAN
Llwyddiant yw Hapusrwydd
MWYNHAU'R hyn a WNEWCH
YMESTYN
camu allan o'n MAN CYSUR
BOD YN GREADIGOL
ADEILADU SGILIAU
ANADLA
angen i mi gadw'n BRYSUR
FFYRDD o GYFARFOD Â PHOBL NEWY
brwydro UNIGEDD
mae'r BYD ar ein FFÔN
mae technoleg yn EIN GWAHANU
treulio amser ym myd NATUR
cymryd CAM YN ÔL
BETH SY'N BWYSIG I NI
Angen i bobl SYMUD YMLAEN GYDA'U GILYDD
Mae'n RHAID i ni siarad â phobl sy'n wahanol i ni
creu cysylltiadau ar draws cymunedau
BWS ARAF
DIM BWS
Dwi am AROS ond DOES DIM CYFLEOEDD
ond mae ymdeimlad CRYF o GYMUNED
yng Ngheredigion cewch LABEL sy'n aros
MERCH BWTS
darganfod ein LLWYBR EIN HUN
BOD PWY BYNNAG NI EISIAU BOD
darlun gan Maia Thomas

# Y Partneriaeth

Crëwyd Addewid Partneriaeth Dyfodol Ni gan bobl ifanc er mwyn gosod cytundeb sefydliadau partner i gynnal ffocws ieuenctid gweithgareddau'r Bartneriaeth. Mae sefydliadau'n cytuno i sicrhau'r canlynol:

**1. Dan arweiniad ieuenctid.**
Mae lleisiau pobl ifanc yn ganolog i'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig iddyn nhw. Gallant ddefnyddio'r gwasanaeth a ffefrir ganddyn nhw i feithrin annibyniaeth ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau a arweinir gan bobl ifanc, gan annog ymgysylltiad a brwdfrydedd yn yr hyn a wnawn. Mae gwasanaethau'n ymateb i anghenion pobl ifanc leol, fel y'u diffinnir ganddyn nhw, gan gynnig cymorth hygyrch lle bynnag y mae'n bosibl, gyda chymorth wedi'i dargedu i'r rhai sy'n cael eu hystyried eu bod mewn mwy o berygl, dan anfantais neu ag anghenion uwch.

**2. Cynwysoldeb, cydraddoldeb ac amrywiaeth**
Wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion, mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys yn eu hardal leol a gallant gael mynediad i'r cymorth y maen nhw'n penderfynu sydd ei angen arnyn nhw. Ni ddylent deimlo'n ynysig nac yn wahanol oherwydd dewis iaith, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb, cenedligrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, anghenion addysgol arbennig, materion iechyd meddwl, crefydd neu unrhyw nodwedd arall. Dylai'r gwasanaethau ieuenctid lleol helpu i wella amgylchiadau bywyd pobl ifanc o bob cefndir fesul cynnig cymorth i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhwydweithiau sydd eu hangen arnyn nhw i gael mynediad at gyfleoedd a manteisio arnyn nhw.

**3. Parch**
Caiff anghenion a dymuniadau pobl ifanc lleol eu hystyried lawn cymaint ag unrhyw grŵp cymunedol arall. Dylent deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae ieuenctid lleol yn cael eu hannog i gymryd rhan yn eu cymunedau a mwynhau cyfleoedd yn eu hardal heb boeni am farn neu stereoteipio negyddol.

**4. Ansawdd, diogelwch a llesiant**
Darperir gwasanaethau mynediad agored o ansawdd da gan staff â hyfforddiant diogelu sydd â chysylltiadau â chymorth pellach os oes angen. Mae ein gwasanaethau yn helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel ac yn cefnogi eu hiechyd meddwl, emosiynol a chorfforol, yn gwella eu llesiant cymdeithasol ac economaidd. Mae'n sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at addysg, dysgu anffurfiol a gweithgareddau o'u dewis.

**5. Grymuso**
Mae gwasanaethau'n rhoi grym i bobl ifanc i symud ymlaen ac ymgysylltu â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant, ac i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau lleol. Gwrandewir ar bobl ifanc a gallant wneud newidiadau cadarnhaol i'w cymunedau, a deall sut i ymgysylltu â gwneud dewisiadau.

**6. Positifrwydd**
Canolbwyntia gwasanaethau ar ddod â'r gorau allan o bob unigolyn, gan eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a'u priodoleddau, yn hytrach na cheisio 'trwsio problem'.



# Y Cyfnod Datblygu

## Medi 2022 - Awst 2023

Ar ddechrau'r cyfnod datblygu, roedd yn bwysig bod y prosiect yn sefydlu ei ethos a'i strwythur dan arweiniad ieuenctid. Penodwyd Pwyllgor Rheoli Pobl Ifanc (YPMC) yn dilyn proses recriwtio agored. Mae aelodau penodedig YPMC, i gyd o dan 25 oed, yn cynrychioli demograffeg a phrofiadau bywyd amrywiol i ymgorffori lleisiau a barnau gwahanol.

Nod Dyfodol Ni yn ystod y cyfnod datblygu oedd ymgynghori â chymaint o bobl ifanc â phosibl er mwyn galluogi creu Cynllun Cyflawni sy'n mynd i'r afael ag anghenion fel sy'n cael eu hadnabod ganddyn nhw. Casglwyd adborth, gwybodaeth a syniadau helaeth ar gyfer y YPMC, fel y corff gwneud penderfyniadau ar gyfer pobl ifanc, i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y Cynllun Cyflawni.

Mae Ceredigion yn sir fawr, gyda gwasgariad gwledig enfawr a phocedi bychain o ardaloedd trefol; roedd yn bwysig i'r YPMC bod yr ymgynghoriad yn cwmpasu cymaint o'r sir â phosibl. Yn ystod y cyfnod datblygu cynhaliodd pob Partner ddigwyddiadau ymgysylltu, a dyma oedd y prif ddull o ymgynghori. Awgrymodd ein hymchwil cychwynnol y dylid cynnal y rhain mewn amgylcheddau unigryw at ddefnydd pobl ifanc, lle gallent siarad yn rhydd ac yn onest, heb ofni cerydd.

Cynhaliwyd 37 o ddigwyddiadau ymgysylltu dros y cyfnod datblygu. Roedd digwyddiadau'n caniatáu'r cyrhaeddiad mwyaf posibl, ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc gael mynediad at weithgareddau wedi'u hariannu na chawsant eu fforddio o'r blaen efallai. Rhoddodd digwyddiadau ar raddfa fawr lwyfan i Dyfodol Ni godi ymwybyddiaeth o YPMC, y Bartneriaeth, a'r pŵer sydd ganddyn nhw i wneud newid i bobl ifanc Ceredigion.






# Digwyddiadau Ymgysylltu

Daeth yr holl wybodaeth ymgynghori a gasglwyd drwy gydol y cyfnod datblygu gan dros 1200 o bobl ifanc, yn amrywio o 4-25 oed. Roedd y digwyddiadau ymgysylltu yn amrywio o nosweithiau gemio a wnaeth ddenu deg o bobl, i ddigwyddiadau cerddoriaeth neu perfformio ar raddfa fawr a wnaeth ddenu dros gant.

Bu rhai Partneriaid yn cyd-gynhyrchu digwyddiadau gyda phobl ifanc, neu hyd yn oed yn trosglwyddo'r awenau'n gyfan gwbl, gan roi cyfle i bobl ifanc ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ac arweinyddiaeth, a chael profiad. Agwedd allweddol pob un o'r digwyddiadau hyn oedd rhoi teimlad i bobl ifanc eu bod â pherchnogaeth a chyfrifoldeb drostyn nhw, mewn mannau lle'r oedden nhw'n teimlo y gallent siarad yn rhydd. Roedden ni am gael ymgynghoriad a oedd yn onest, yn dda neu'n ddrwg, ac mewn ffordd lle nad oedd pobl ifanc yn teimlo dan bwysau i roi atebion penodol, neu angen plesio unrhyw un.

Sgyrsiau gydag unigolion neu grwpiau o bobl ifanc oedd yr ymgynghoriadau yn bennaf, yn hytrach nag arolygon, gan fod pobl ifanc yn dweud eu bod yn teimlo bod arolygion yn rhy amhersonol. Roedd y Tîm Ymgysylltu yn ddwyieithog, ac felly gellid cynnal ymgynghoriadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan wneud yn siŵr bod pobl ifanc yn gwybod y gallent ddefnyddio pa bynnag iaith yr oedden nhw'n fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio.

# Canlyniadau

Dyma'r materion a godwyd amlaf gan bobl ifanc yn ystod ymgynghoriadau:

## 1 Mynediad i wasanaethau

Lleihau'r loteri cod post o'r gwasanaethau sydd ar gael, gan gryfhau amrywiaeth y gwasanaethau sydd ar gael.

## 2 System drafnidiaeth wael

Mae system drafnidiaeth anaddas yn cyfrannu at fethiant pobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau mewn modd amserol neu briodol.

## 3 Safleoedd saff

'Safleoedd saff' yw'r term dalgylch ar gyfer y cais mwyaf a dderbyniwyd gan bobl ifanc yn ystod y cyfnod datblygu. Nododd y bobl ifanc mai ychydig, neu ddim o gwbl, o safleoedd saff oedd ar gael at ddefnydd pobl ifanc yn unig yng Ngheredigion.

## 4 Cynrychiolaeth




# 4 Representation
# Cynrychiolaeth

Yn dilyn sawl sylw gan bobl ifanc ar y pwnc, cyfarwyddodd YPMC y Tîm Ymgysylltu i ddechrau gofyn i bobl ifanc am gynrychiolaeth, ac a oedden nhw'n teimlo bod y rhai mewn grym yn gwrando arnyn nhw.

Roedd y canfyddiadau'n gwbl glir. Mae pobl ifanc yn teimlo nad yw pobl mewn grym sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhwn gwrando arnyn nhw, heb sôn am eu cymryd o ddifrif. Canfuwyd y farn hon ar draws yr ystod oedran yn ystod ymgynghoriad Dyfodol Ni – o 4 i 25 oed – ac ar draws y sir gyfan.

O ystyried bod nifer fawr o'r bobl ifanc yr ymgynghorwyd â nhw o oedran pleidleisio, neu ar fin cyrraedd oedran pleidleisio, dylai hyn fod yn bryder difrifol i'r rhai sydd mewn swyddi o bŵer sy'n honni eu bod yn cynrychioli'r etholwyr. Roedd yn bryder mawr i YPMC.





Safe Space to Speak

Safle Saff i Siarad

# Cynllun Cyflwyno:

Yn dilyn ymgynghoriad, nododd yr YPMC fod y mwyafrif o bobl ifanc eisiau teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli, a bod pobl mewn grym sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, yn gwrando arnyn nhw. Wedi'i ysgogi gan y galw hwn, bydd yr YPMC yn sefydlu Safe Space to Speak / Safle Saff i Siarad ($S^3$), grŵp cynrychioliadol ar gyfer pobl ifanc ar wahân i strwythurau pŵer traddodiadol, sydd, o’r dechrau’n deg, yn cael ei arwain gan bobl ifanc. Nodir ei nodau cyffredinol yn eu Maniffesto, gyda ffocws ar ymgyrchu dros newid systemig er budd pobl ifanc.

Prif dasg $S^3$ fydd ymgyrchu am wasanaethau gwell i gefnogi iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc. Mi fydd yn dechrau yng Ngheredigion, ond mae ei nodau yn llawer mwy pellgyrhaeddol. Mae $S^3$ am greu model y gall siroedd a sefydliadau eraill ei ddilyn, yn enwedig o ran eu golygfa ddelfrydol o safleoedd saff.

# Cynllun Cyflwyno: Llyw a Byw

Bwriad Feelz on Wheelz / Llyw a Byw yw mynd i'r afael â thri mater allweddol a ddeilliodd o ymgynghoriad Dyfodol Ni: mynediad at wasanaethau, diffyg safleoedd saff i bobl ifanc yn y sir, a thrafnidiaeth.

Caffi ieunenctid symudol yw Feelz on Wheelz / Llyw a Byw lle gall pobl ifanc alw heibio i gael paned a chael mynediad at Weithwyr Cefnogi os maen nhw'n dymuno. Bydd bwyd a diod yn cael eu sybsideiddio, er hynny nid oes unrhyw rwymedigaeth ar bobl ifanc i wario unrhyw arian; nod hirdymor y YPMC yw darparu bwyd a diod am ddim. Bydd y gwasanaeth yn darparu ar gyfer pobl ifanc 13-25 oed, 5 diwrnod yr wythnos. Caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r gwasanaeth yn anelu at gwmpasu cymaint o Geredigion â phosibl, yn enwedig gan dargedu ardaloedd lle mae angen gwasanaethau i bobl ifanc. Yn dibynnu ar y tywydd, bydd y tîm yn creu gofod caffi awyr agored gan ddefnyddio'r fan fel canolbwynt, er hynny bydd yr amserlen yn cynnwys mannau dan do, a ddarperir gan Bartneriaid neu gan amwynderau lleol megis neuaddau pentref.

Bydd Feelz on Wheelz / Llyw a Byw yn cynnal Digwyddiadau Sadwrn i roi cymorth ymgynghori a chasglu gwybodaeth sydd eu hangen ar gyfer gwerthuso a datblygu'r gwasanaeth yn barhaus.








**Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am Ddyfodol Ni, neu yn sefydliad sydd â diddordeb mewn ymuno â'n Partneriaeth, cysylltwch ag un o'r canlynol:**

**Ar gyfer partneriaeth (Dyfodol Ni):**
dyfodolni@area43.co.uk

**S³ (Safe Space to Speak):**
s3@dyfodolni.co.uk

**Feelz on Wheelz / Llyw a Byw:**
feelzonwheelz@dyfodolni.co.uk

Dyfodol Ni
OUR FUTURE





